

# Cynllunio iechyd diadell Cloffni



Gall cloffni mewn diadelloedd defaid achosi colledion sylweddol oherwydd llai o gynnydd pwysau, clefydau metabolig mewn mamogiaid beichiog, wryn ysgafnach adeg eu geni, cam-famaethu a phrinder colostrwm gan y mamogiaid. Gall costau triniaeth fynd yn ddrud yn gyflym o ran llafur a meddyginiaethau milfeddygol.

## Braenedd y traed a Llid y traed

Braenedd y traed yw un o brif achosion cloffni mewn diadelloedd. Mae llid y traed yn effeithio ar y croen rhwng yr ewinedd ac yn cael ei achosi gan *Fusobacterium necrophorum*. Bydd defaid yn cael braenedd y traed pan fo'r difrod hwnnw i'r croen yn caniatáu heintiad bacterol pellach gan *Dichelobacter nodosus* i dreiddio'n ddyfnach ac achosi llid a difrod i'r meinweoedd. Mae braenedd y traed yn ymledu'n rhwydd pan fo'r tywydd yn gynnes a llaith a phan fo'r defaid o dan do. Hefyd, gall dwysedd stocio, pH y pridd a brid y ddafad ddylanwadu ar nifer yr achosion a'u difrifoldeb.

Mae modd atal braenedd y traed. Os oes mwy na 5% o'r ddiadell yn dioddef ar yr un pryd neu os oes gan unrhyw anifeiliaid fraenedd y traed difrifol a'r corn yn dod yn rhydd ar o leiaf un droed, yna mae angen archwilio'r rhaglen reoli ar gyfer y ddiadell gyfan. Bydd diadelloedd yn colli arian os yw'r clefyd cynddrwg â hyn. Mae mynd i'r afael â chloffni yn golygu gweithredu drwy'r flwyddyn a dylid cynnwys y gwaith fel rhan allweddol o'r cynllun iechyd diadell.

Unwaith y mae llid y traed neu fraenedd y traed yn digwydd mae'n ymdrech yn y tymor byr yn golygu manteision hirdymor. Gall anwybyddu'r broblem ym mis Mai arwain at lefelau uchel o gloffni ac wryn heb orffen pesgi erbyn mis Medi. Erbyn hynny bydd hi'n rhy hwyr gwneud dim heblaw lleihau colledion.

## Trin ac Atal Braenedd y Traed

Nid oes unrhyw ffordd hawdd a chyflym o reoli'r clefyd. Gall rhaglen reoli gynnwys gwrthfotigau argroenol a gwrthfotigau ar gyfer pigiadau, defnyddio baddon traed, brechiadau, cadw'r anifeiliaid sy'n dioddef ar wahân a phori ar borfa lân.

Dylid rhannu mamogiaid cloff oddi wrth y brif ddiadell a'u trin cyn gynted ag y bo lles yr anifail yn caniatáu. Mae braenedd y traed yn gyflwr heintus a dylid ei drin â gwrthfotigau. Mae hefyd yn debygol fod achosion o lid y traed yn cynnwys bacteria braenedd y traed. Bydd chwistrelliadau a baddonau traed yn lladd y bacteria hyn ac yn atal ymlediad.

Gwnewch yn siŵr fod y cyfarpar mewn cyflwr da a bod y traed yn lân cyn defnyddio baddon traed. Gwaredwch unrhyw belenni llaid wedi caledu, glanhewch y llaid sydd rhwng yr olgemaau a cherddwch y defaid drwy ddŵr i ddechrau os yw eu traed yn frwnt. Naddwch y carnau ond pan fo hynny'n gwbl angenrheidiol oherwydd bydd gornaddu'n gwneud mwy o ddifrod nag o les. Dim ond corn sydd wedi gordyfu neu sy'n rhydd y dylid ei naddu. Gall naddu mwy beri i bridd a malurion fynd i mewn i'r carn ac achosi

heintiadau eraill. Dylid osgoi naddu traed defaid a gafodd driniaeth wrthfotig am o leiaf 24 awr wedyn (5 niwrnod yn ddelfrydol). Diheintiwch y cyfarpar naddu traed ar ôl pob dafad. Ar ôl naddu defnyddiwch chwistrell draed neu rhowch y defaid drwy faddon traed yn cynnwys sylffad sinc (hydoddiant o 10% am o leiaf ddwy funud) neu fformalin (hydoddiant o 3%).

Os ydych chi'n rhoi'r ddiadell gyfan drwy faddon traed trafodwch y defaid holliach yn gyntaf. Cofiwch y gall crynodiadau uchel wneud difrod i'r croen a'r traed. Gadewch i'r defaid sefyll ar wyneb caled am o leiaf awr ar ôl bod mewn baddon traed ac yna rhowch nhw mewn cae lle na fu defaid yn ystod y bythefnos flaenorol.

Nodwch bob dafad yn unigol a chadwch gofnodion o'r holl driniaethau. Dylid difa unrhyw ddefaid sy'n gloff yn fynych oherwydd braenedd y traed, sy'n gwrthod ymateb i driniaeth wrthfotig ac sydd â thraed afluniaidd.

Dylai rheoli ac atal braenedd y traed a llid y traed fod yn rhan o'ch Cynllun Iechyd Diadell. Gall brechu ar gyfer braenedd y traed fod yn rhan o'ch rhaglen reoli a gall hefyd fod yn fuddiol pan fo achos yn digwydd.

Mae gwybodaeth bellach ynglŷn ag arferion gorau i reoli braenedd y traed a llid y traed mewn defaid ar y we yn [www.footrotinsheep.org](http://www.footrotinsheep.org)

## Dermatitis Carnol Defeidiog Heintus (CODD)

Os nad yw triniaeth yn gwella problemau traed, mae'n bosibl fod y traed wedi'u heintio â Dermatitis Carnol Defeidiog Heintus (CODD) yn hytrach na braenedd y traed. Cysylltwch â'ch milfeddyg i gael diagnosis. Mae modd trin CODD â baddonau traed gwrthfotig sydd ar gael ar bresgripsiwn ond rhaid gwneud yn siŵr yn gyntaf taw CODD yw'r broblem. Mae lluniau o hyn a'r prif achosion eraill o gloffni defaid i'w gweld ar wefan Prifysgol Warwick yn <http://www.warwick.ac.uk/go/sheeplameness/>

## Rheoli risg cloffni mewn defaid

### Y risg lleiaf

1. Rhaglen wedi'i chynllunio i atal cloffni – diadell gaeedig, difa anifeiliaid ymatebol, brechu fel y bo'n briodol.
2. Prynu anifeiliaid amnewid o ffynonellau y gwyddys eu bod yn rhydd o fraenedd y traed; ynysu anifeiliaid cyfnewid ac anifeiliaid sy'n dychwelyd i'r fferm; cadw anifeiliaid ar wahân cymaint ag y bo modd.
3. Rhaglen reoli wedi'i chynllunio yn cael ei gweithredu'n briodol.
4. Gwneud dim
5. Gornaddu traed anifeiliaid sy'n dioddef

### Y risg mwyaf

# Cynllunio iechyd diadell – penderfyniadau ynglŷn â chloffni

Oes yna problem?

Dyddiad: \_\_\_\_\_

Cyflwr	Achosion – eleni	Wedi'u difa – eleni	Targed y flwyddyn nesaf
Llid y traed			
Braenedd y traed			
CODD			
Cloffni arall			

Oes bwriad cymryd camau?

Oes/Nac oes

Camau Arfaethedig	Grwpiau targed	Dyddiadau	Cynnyrch
Baddon traed			
Naddu traed			
Brechu			
Gwrthfotigau			

## Penderfyniadau eraill

- Cofnodi'r holl achosion o gloffni a difa anifeiliaid sy'n gloff o hyd? le/Na
- Trin ac ynysu defaid â braenedd y traed ar unwaith. le/Na
- Cadw defaid ar wahân cymaint ag y bo modd (adeg crynhoi, etc.). le/Na
- Diheintio'r cyfarpar naddu traed ar ôl pob dafad. le/Na
- Symud defaid â braenedd y traed cyn eu rhoi dan do a'u cadw mewn lloc ar wahân. le/Na
- Ar ôl baddon traed, naddu traed, etc. rhoi defaid ar borfa lle na fu pori am o leiaf bythefnos. le/Na
- Cadw mannau ymgynnull yn lân a chymen. le/Na
- Symud cafnau, didolborthwyr, etc. yn rheolaidd. le/Na
- Osgoi defnyddio'r un bylchau, etc. drwy'r amser ac osgoi tir â draeniad gwael yn ystod cyfnodau o risg. le/Na
- Atal colli gormod o ddŵr o gafnau. le/Na
- Rhoi gwasarn sych yn rheolaidd i ddefaid dan do, yn enwedig o amgylch rhastlau/cafnau bwydo, cafnau dŵr a mannau brwnt eraill. le/Na
- Dysgwch y staff sut i beidio â gornaddu traed (ystyriwch naddu ond y traed sydd wedi gordyfu). le/Na

## Polisi Amnewid

- Osgoi dewis anifeiliaid amnewid wedi'u geni i famogiaid â hanes o gloffni. le/Na
- Difa anifeiliaid sy'n gloff yn fynych a defaid nad ydynt yn ymateb i driniaeth. le/Na
- Prynu anifeiliaid amnewid o gyn lleied o ffynonellau ag y bodd ac o ffynonellau hysbys le/Na
- Ynysu anifeiliaid amnewid a defaid sy'n dychwelyd i'r fferm am o leiaf 3 wythnos, ac archwilio'r traed yn gyson le/Na

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i [www.footrotinsheep.org](http://www.footrotinsheep.org)

Cynllunio iechyd diadell – dyddiad adolygu cloffni : \_\_\_\_\_